

# Talacharn – Cynllun Adferiad a Thwf Economaidd

**Paratowyd ar gyfer Cyngor Sir Gar**

Mai 2021

# Tabl Cynnwys


1 Pam ydym ni'n gwneud hyn? .......... 3

2 Y Darlun Ehangach .......... 4

3 Hendy-gwyn ar Daf Heddiw .......... 6

4 Ystyriaethau a Chyfleoedd Lleol .......... 12

5 Camau â blaenoriaeth .......... 14

6 Cyflawni'r gwaith .......... 22



This document has been prepared by: Owen Davies Consulting Ltd. On behalf of Carmarthenshire County Council. Prepared by: Owen Davies, David Jones (Chilmark Consulting), Arwel Jones (Arwel Jones Associates), John Anderson (John Anderson Associates)
Owen Davies Consulting Ltd
7B Nevill Street
Abergavenny
NP7 7DR
www.owendaviesconsulting.co.uk
07809 594524
owen@owendaviesconsulting.co.uk



All maps within this document are:
Reproduced from Ordnance Survey with permission of the controller of Her Majesty's Stationery Office (C) Crown copyright.
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2020 Arolwg Ordnans 100023377
© Crown copyright and database rights [2020] Ordnance Survey 100023377

Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution/ civil proceedings.


Laugharne
Talacharn
River Taf
A4066

# 1 Pam ydym ni'n gwneud hyn?

Mae'r Cynllun Adferiad a Thwf hwn ar gyfer Talacharn yn ymwneud â'r cyfleoedd sydd ar hyn o bryd ar gyfer adferiad economaidd cynaliadwy yn ogystal â ffyniant a thwf mwy hirdymor y dref a'r ardal o'i chwmpas dros y pum mlynedd nesaf a'r tu hwnt i hynny.

Mae effeithiau economaidd Coronafeirws yn gwbl eithriadol na phrofwyd erioed o'r blaen gan ein cenhedlaeth. Mae'r effeithiau hyn yn negyddol yn bennaf i'r economi leol, ond mae rhai pethau cadarnhaol, gyda chymunedau'n dod yn nes at gilydd a chanolbwyntio ar yr hyn sy'n gwirioneddol gyfrif, ac yn fwy parod i weithredu'n gynaliadwy a chefnogi eu tref a'u heconomi leol.

Cyn y pandemig COVID-19, roedd Cyngor Sir Gaerfyrddin wedi lansio Menter y Deg Tref i gefnogi twf a gwydnwch trefi gwledig ar draws y Sir. Y nod oedd datblygu gweledigaeth strategol hirdymor ar gyfer pob tref i gefnogi twf economaidd ac annog canolfannau mwy bywiog ac economaidd gynaliadwy. Rhoddwyd pwyslais newydd ar y fenter hon yng ngoleuni'r pandemig, i geisio adferiad economaidd ar unwaith yn ogystal ag adeiladu ar gyfer twf mwy hirdymor.



# 2 Y Darlun Ehangach

## Adferiad Economaidd Sir Gaerfyrddin


Ar gychwyn 2021, mae economi Sir Gaerfyrddin yn dal o dan ddylanwad trwm ymyraethau llywodraeth i gefnogi swyddi a sectorau busnes ac mae ansicrwydd o hyd wrth i'r cyfyngiadau amrywio gyda'r pandemig a'r amrywiol fesurau clo.

Mae'n dal i fod gryn dipyn o amwysedd ynghylch patrwm adferiad, yn ogystal ag effaith Brexit. Bydd yr adferiad yn araf, a gall gymryd llawer blwyddyn i economi Sir Gaerfyrddin adfer i'w lefel flaenorol, heb sôn am adennill y tir a gollwyd yn sgil yr argyfwng COVID-19 a'i effeithiau. Felly, y brif flaenoriaeth ar hyn o bryd ar gyfer adferiad Sir Gâr yw amddiffyn swyddi a diogelu busnesau. Mae pwyslais yn parhau hefyd ar yr heriau mwy hirdymor sy'n cyfyngu ar dwf yn Sir Gaerfyrddin gan gynnwys cynhyrchiant a chyflogau isel, diffygion sgiliau, rhy ychydig o fusnesau'n ehangu i weithredu ar raddfa uwch, a'r angen am fuddsoddi mewn seilwaith a safleoedd busnes modern.

Mae dau brif gonglfaen i adferiad economi Sir Gâr, sef pwysleisio'r lleol a gweithredu ar lefel leol, a gwneud yr holl economi'n fwy cystadleuol. Mae'r camau gweithredu i gefnogi'r adferiad yn canolbwyntio ar themâu allweddol – Busnes, Pobl a Lle ynghyd â blaenoriaethu pedair uchelgais drawsbynciol:

- Cysylltedd digidol cwbl ddibynadwy a diwylliant digidol – a fydd yn sail i adferiad a thwf ledled yr holl economi
- Sgiliau – cadw, ailsgilio, uwchsgilio a sicrhau bod gan bobl y sgiliau iawn i gyflawni'r swyddi a gaiff eu creu.
- Economi werdd – seilwaith carbon isel sy'n gallu gwrthsefyll newid hinsawdd, ynni adnewyddadwy a chartrefi cynaliadwy.
- Economi deg a chydradd a chefnogaeth i'r iaith a'r diwylliant Cymraeg

**Ffigur 1 Dylanwadau strategol**



## Cyd-destun strategol

Caiff cyd-destun y cynllun ei ddylanwadu gan amgylchiadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sy’n wynebu’r Sir Gâr wledig, gan gynnwys technoleg, argyfwng hinsawdd a datgarboneiddio, effeithiau parhaus COVID-19 a gadael yr Undeb Ewropeaidd (Brexit).

Mae’r cyd-destun strategol hefyd yn cynnwys blaenoriaethau Cyngor Sir Gaerfyrddin, Dinas-Ranbarth Bae Abertawe a Llywodraeth Cymru, ynghyd â dylanwad cynyddol Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) a Chynlluniau Llesiant lleol.

Mae un o nodau allweddol y Ddeddf yn galw ar gyrff cyhoeddus i fod yn fwy hyblyg er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymateb i amgylchiadau economaidd sy’n newid yn barhaus ac ymateb i’r eithaf ar gyfleoedd newydd am dwf. Gweithredir datblygu cynaliadwy drwy’r holl broses, yn ogystal â ffyrdd newydd o weithio i sicrhau bod awdurdodau lleol yn ystyried yr hirdymor, yn rhwystro problemau rhag digwydd neu waethygu, a mabwysiadu dull cyfannol a chydweithredol sy’n canolbwyntio ar bobl.

Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar sicrhau dyfodol cynaliadwy a llewyrchus i'r dref sy'n galluogi'r Gymraeg i ffynnu, trwy hyrwyddo entrepreneuriaeth a thwf busnesau bach mewn ardaloedd lle mae canran uchel o’r bobl yn siarad Cymraeg.

### Ffigur 2 Dylanwadau strategol

- Twf busnesau sefydledig
- Cryfhau'r economi sylfaenol
- Mwy o leoedd cyflogaeth i fusnesau newydd a busnesau sy'n tyfu
- Datblygu sgiliau i ddod i mewn i waith, ac aros a chamu ymlaen mewn gwaith
- Cynyddu'r defnydd o dechnoleg newydd, ymchwil a datblygu, awtomatiaeth a
- Cynyddu cynhyrchiant, arallgyfeirio ac effeithlonrwydd amaethyddiaeth
- Trefi unigryw, deniadol a bywiog i fyw ynddynt ac ymweld â nhw
- Canol trefi yn gyntaf
- Seilwaith modern - trafnidiaeth - digidol - lleihau carbon
- Cynyddu cyfleoedd i fusnesau gan y sector cyhoeddus wrth gaffael
- Twf busnes a chyflogaeth sy'n cynnal y defnydd o Gymraeg

# 3 Talacharn heddiw

Tref fach yw Talacharn sy'n adnabyddus am ei chastell a'i phensaernïaeth hanesyddol, ei harfordir hardd a blaendraeth deniadol, yn ogystal â'i hamlygrwydd byd-eang yn sgil ei chysylltiadau â'r bardd Dylan Thomas.


Tyfodd y dreflan yn hanesyddol o gwmpas ardal yr harbwr gwreiddiol ac Afon Coran ac mae ei datblygiad o ddwysedd uchel. Ac eithrio datblygiadau mewnlenwi bach, mae'r rhan fwyaf o dwf diweddar y dref, gan gynnwys yr ysgol gynradd a thai, wedi digwydd ar y tir uwch uwchlaw'r dref (Stryd Gosport) ac yn y cefn gwlad o gwmpas. Mae'r dref wedi dod yn lle poblogaidd i fyw ac ar gyfer ail gartrefi / tai gwyliau.

Mae'r A4066 rhwng Sanclêr a chyrchfan lan-môr Pentywyn yn mynd trwy ganol Talacharn, gan ganiatáu mynediad cymharol hawdd yn ôl ac ymlaen i'r A40, er bod y strydoedd hanesyddol drwy'r dref yn anaddas ar gyfer dwysedd trwm o draffig. Ymddengys mai llety twristiaid a busnesau lletygarwch yw nodwedd amlycaf yr economi leol, er bod y boblogaeth yn elwa ar gyfleoedd am waith ymhellach i ffwrdd gan gynnwys ardaloedd cyflogaeth ddiwydiannol a masnachol ysgafn o amgylch Sanclêr ac amrywiaeth helaethach o gyfleoedd, gan gynnwys cyflogaeth sector cyhoeddus yng Nghaerfyrddin.

Y tu allan i'r dref, mae'r economi'n cynnal amrywiaeth o fusnesau gwledig gan gynnwys busnesau seiliedig ar amaethyddiaeth a'r tir, bwyd a diod a thwristiaeth. Mae hefyd llawer o ficrofusnesau, gan gynnwys mentrau mwy newydd sy'n ymwneud â 'ffordd o fyw', busnesau cysylltiedig ag ymwelwyr a diwydiannau creadigol sy'n cyfuno byw a gweithio mewn ardaloedd gwledig.

Mae trigolion Talacharn yn ddibynnol ar Sanclêr yn bennaf am amrywiaeth helaethach o siopau a gwasanaethau lleol gan gynnwys yr archfarchnad, peiriant ATM a chanolfan hamdden agosaf

**Ffigur 3 Cyd-destun lleoliad**



## Darlun economaidd-gymdeithasol

Poblogaeth Talacharn yw 2,700, mae cyfran o bobl sy'n siarad Cymraeg yn Nhalacharn (23%) yn isel iawn yn enwedig cymharu gyda'r cyfartaledd ar gyfer Sir Gaerfyrddin wledig (50%).

O gymharu ag ardal wledig Sir Gâr mae wedi profi'r canlynol dros y ddeng mlynedd ddiwethaf:

- lleihad sylweddol mewn poblogaeth
- poblogaeth gynyddol o bobl hŷn
- lleihad yn y boblogaeth oedran gwaith
- cyfraddau cyfartalog o weithgarwch economaidd a chyflogaeth lawn-amser
- cyflogaeth lawn-amser is na'r cyfartaledd
- economi leol gymharol lwyddiannus er o sgiliau is
- lefelau uwch na'r cyfartaledd o weithio o gartref a hunan-gyflogaeth
- prisiau tai yn uwch na'r cyfartaledd
- 6% o leihad yn y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg

Mae'r data yn dangos bod rhan fawr o'r economi leol yn ddibynnol ar incymau rhan-amser, sgiliau isel a chyflogau is.

### Ffigur 4 Tueddiadau economaidd-gymdeithasol diweddar

| | Poblogaeth | Oedran gwaith | Incwm gros aelwydydd | Prisiau tai canolrifol | Economaidd weithgar | Cyflogaeth lawn-amser |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ardal wledig y Sir** | Cynnydd 1.8% | Lleihad 3% | £28,622 | £135k | 66% | 33% |
| **Ardal Talacharn** | Lleihad 5.3% | Lleihad 12.5 % | £29,161 | £154k - £180k | 66% | 29% |
| | **Gweithio o gartref** | **Hunan-gyflogedig** | **Galwedigaeth fwyaf** | **Dim sgiliau** | **Cymwysterau uwch** | **Cyflogir mewn amaethyddiaeth** |
| **Ardal wledig y Sir** | 7% | 14% | Crefftau medrus 19% | 25% | 30% | 6% |
| **Ardal Talacharn** | 8% | 19% | Crefftau medrus 22% | 26% | 28% | 9% |

**Ffynonellau: Cyfrifiad ONS a NOMIS – Astudiaeth linell sylfaen**

## Busnesau a chyflogaeth

Mae 65% o'r busnesau yn Nhalacharn yn y sectorau lletygarwch, llety a manwerthu, gyda dim ond 10% mewn diwydiannau gweithdai a gweithgynhyrchu traddodiadol.

Mae'r cyflogwyr lleol mwyaf hefyd yn y sector hamdden gydag amryw o westyau cyrchfan gan gynnwys safle eang Seasons Holiday (Dylan Coastal Resort Luxury Lodges). Fodd bynnag, mae cyfran fawr o drigolion yn cael eu cyflogi y tu allan i'r dref gan gynnwys mewn manwerthu ac iechyd a gwaith cymdeithasol.

Mae'r lefelau uwch na'r cyfartaledd o hunan-gyflogaeth yn adlewyrchu graddfa'r sector amaethyddol, busnesau gwledig yn ogystal â natur ran-amser a thymhorol yr economi. Mae'r economi sylfaenol yn cynnwys busnesau sy'n darparu gwasanaethau lleol hanfodol, gyda'r rhain yn cynnwys crefftau lleol, trwsio ceir, gofal plant a gofal cymdeithasol.

Mae cyflogaeth mewn amaethyddiaeth a diwydiannau seiliedig ar y tir (chwareli) yn dal yn uwch na'r cyfartaledd gwledig ac mae'n dal i fod yn rhan allweddol o'r economi leol. Fodd bynnag, ychydig iawn sydd o fusnesau amaethyddol cysylltiedig fel gwerthwyr bwydydd, mecanyddol a pheirianneg, trelars, gwerthu tractorau oherwydd maent wedi eu lleoli yn Sanclêr gerllaw.

Y sectorau cyflogaeth mwyaf:

- 13% masnach cyfanwerthu a manwerthu
- 12% iechyd dynol a gwaith cymdeithasol
- 12% llety a gwasanaethau bwyd

Mae natur gweithgynhyrchu a diwydiant ysgafn yn wasgarog, ac mae safleoedd yn tueddu i fod yn fach ac yma ac acw ar draws y dref. Mae rhai o'r safleoedd hyn ar werth ar hyn o bryd neu mae caniatâd i'w troi'n eiddo preswyl, gan leihau ymhellach raddfa'r sail leol o fusnesau gweithgynhyrchu a diwydiannol.



## Economi'r dref

Mae canol hanesyddol a thrawiadol y dref yn cynnwys y castell amlwg a golygfeydd anhygoel o'r arfordir. Fodd bynnag, nid yw 'stryd fawr' hanesyddol Talacharn yn cynnig dim ond siopau lleol sylfaenol i drigolion ac ymwelwyr. Er bod y canol y fach, nid oes ond tua 20 o unedau busnes a'r rheini'n bennaf yn darparu bwyd, diod a llety. Er bod y nifer o fusnesau'n lleihau, mae'r rheini wedi cael eu troi'n anheddau preswyl neu lety gwyliau ac ychydig iawn sydd o safleoedd gwag.

Mae'r canol yn ymestyn allan gyda'r brif ardal fwyaf bywiog gyferbyn â'r castell a'r prif faes parcio yn y Grist. Mae gan yr ardal glwstwr o fusnesau manwerthu a lletygarwch ac mae'n cynnwys siop hwylustod Select a siop anrhegion. Mae rhan uchaf canol y dref yn cynnwys deli, gemyddion, fferyllfa, siop trin gwallt a swyddfa bost.

Mae'r amrywiaeth helaeth o fusnesau lletygarwch wedi rhoi economi nosweithiol gref i'r dref; fodd bynnag mae hyn yn dymhorol fel arfer gyda llawer o fusnesau'n lleihau oriau agor yn ystod y gaeaf. Un anfantais fawr, yn enwedig i gyrchfan ymwelwyr, yw absenoldeb peiriant ATM, er bod gwasanaethau bancio yn cael eu darparu yn y Swyddfa Bost. Mae amryw o gyfleusterau cymunedol lleol pwysig wedi eu lleoli yng nghanol y dref, gan gynnwys neuadd y dref a meddygfa a neuadd gymunedol.



## Economi Ymwelwyr

Mae Talacharn yn gyrchfan eiconig i ymwelwyr, wedi cael ei phaentio gan Constable a Turner ymhell cyn y cysylltiadau cryf â Dylan Thomas. Mae iddi amgylchedd naturiol a hanesyddol hynod, ac mae enwogrwydd y dref wedi tyfu i ddenu cynulleidfa ehangach gan ddarparu'r lleoliad ffilm ar gyfer y gyfres deledu Un Bore Mercher/Keeping Faith yn y Gymraeg a'r Saesneg. Yn 2018 fe wnaeth Boathouse Dylan Thomas groesawu 29,180 o ymwelwyr a Chastell Talacharn 14,620, gyda'r ddau atyniad yn gweld cynnydd bach yn niferoedd yr ymwelwyr.

Mae Penwythnos Talacharn yn ŵyl, a gynhelir ym mis Ebrill fel arfer, ac iddi amlygrwydd cenedlaethol a dathliad 'amgen' o ddoniau llenyddol a cherddorol, sy'n denu perfformwyr lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Mae gan y dref ddewis cryf o lety a wasanaethir gan gynnwys Brown's Hotel gyda'i 15 o ystafelloedd, y Cors Country House a'r Boathouse B&B. Mae sefydliadau gerllaw yn cynnwys y Corran Hotel and Spa a'r Broadway Country House and Pods. Mae llety hunan-arlwyo ar gael yn y dref yn Great House, Gwalia House a Seaview, gyda Seasons Holiday Park yn cynnig amrywiaeth o gabanau, gan gynnwys dewis o ran moethus newydd gyda chyfleusterau sba, ystafelloedd triniaethau, pwll hydrotherapi a thy bwyta a bar ac maent yn cynyddu'r nifer o gabanau i tua 300 yn y dref.

Mae Talacharn yn un o brif atyniadau twristaidd Sir Gâr sy'n gallu denu ymwelwyr rhyngwladol i'r Sir. Mae hefyd wedi ei lleoli ar Lwybr Arfordir Cymru. Fodd bynnag, mae amryw o heriau gan gynnwys gwneud y Boathouse enwog yn fwy gweladwy a gwella mynediad cerddwyr iddo, a rheoli traffig a lleoedd parcio i ymwelwyr yn ystod y tymhorau brig.

Mae'r prif ddatblygiad atyniad twristaidd mawr newydd ym Mhentywyn yn cynnwys yr Amgueddfa Cyflymder, y gyrchfan wyliau eco-weithgareddau a chyfleuster mawr ar gyfer digwyddiadau awyr agored. Mae hyn yn debygol o fod o fudd i ddarparwyr llety lleol a gwariant eilaidd, ond gall arwain at effeithiau negyddol o safbwynt cynyddu traffig sy'n mynd trwy ganol y dref.



## Brand a marchnata

Mae presenoldeb Talacharn ar-lein yn canolbwyntio ar dwristiaeth ac mae'n ddibynnol iawn ar wefan Darganfod Sir Gâr a'r cysylltiad â Dylan Thomas. Fodd bynnag, mae angen ei ddiweddaru (mae Trip Advisor, er enghraifft, yn cynnig 'Tin Shed Experience' sydd wedi cau ers peth amser ac mae'r llun ar glawr Darganfod Sir Gâr yn un o fusnes sydd wedi cau ers rhai blynyddoedd). Hefyd, ac eithrio'r Boathouse a'r castell, does dim llawer o ddim byd arall yn cael ei hyrwyddo ar ôl ichi gyrraedd.

Rydym wedi darganfod nad oes gan y dref leoliad ar-lein sy'n glir a dealladwy y gall ymwelwyr fynd ato i weld beth sydd gan y dref i'w gynnig o safbwynt twristiaeth neu fusnes lleol, a'i bod yn lle hynny yn ddibynnol ar amrywiaeth o wahanol wefannau gan gynnwys Croeso Cymru, Visit Carmarthenshire, y BBC etc.

Fodd bynnag, mae busnesau fel y Ferryman Deli a'r gwesty enwog Brown's Hotel sydd wedi manteisio ar eu llwyfannau ar-lein i farchnata eu brand a'u cynigion cynnyrch ac ymddengys fod Gŵyl Penwythnos Talacharn yn cyfathrebu'n rheolaidd ac effeithiol gyda'i chynulleidfa, sy'n helpu rhoi teimlad o fywiogrwydd ac arwyddocâd i'r dref.

## Trafnidiaeth a symudiad

Mae traffig a pharcio yn bryderon sylweddol o safbwynt twf ac apêl Talacharn yn y dyfodol. Mae amryw o astudiaethau wedi archwilio'n fanwl yr ystyriaethau a'r cyfleoedd. Mae'r pryderon allweddol yn cynnwys:


- Yn ystod cyfnodau brig (yn ystod y dydd a'r gyda'r nos) mae lleoedd parcio'n llenwi'n gyflym, sy'n gorfodi llawer o dwristaid i barcio ar hyd y brif ffordd drwodd, ac ar y strydoedd preswyl o gwmpas.
- Mae'r rhwydwaith o strydoedd cul yn golygu y gall ychydig bach o barcio anystyriol yn hawdd rwystro mynediad a llif traffig, gan arwain at dagfeydd.
- Cerbydau mawr – bysiau ymwelwyr, cerbydau amaethyddol a loriau chwarel yn mynd drwy'r canol yn rheolaidd gan ychwanegu at dagfeydd.



Disgwylir i atyniadau newydd i ymwelwyr ym Mhentywyn (o 2021) gynyddu dwysedd traffig trwy Dalacharn yn ogystal â chynyddu ymwelwyr. Y pryder allweddol yw y bydd yr holl draffig sy'n mynd trwy'r rhanbarth o'r dwyrain (A477) a'r gorllewin (A40) tuag at Pentywyn yn cael eu cyfarwyddo ar hyd yr A4066 trwy ganol hanesyddol a chul Talacharn.

Fodd bynnag, mae cysylltiadau cerdded a beicio poblogaidd eisoes tuag at ganol y dref ac o'i chwmpas, gan gynnwys y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol, Llwybr Arfordir Cymru a llwybrau lleol byrrach.

**Ffigur 5 – Llwybrau cerdded a beicio**



## Band Eang a Chysylltedd Digidol

Ymddengys fod gan ardal ganolog y dref gysylltedd digidol da, er ei bod yn amlwg fod ardaloedd mwy (wedi eu marcio mewn coch) yn y cefn gwlad ehangach ac mewn pentrefi ag anawsterau cysylltedd. Mae 210 (70%) allan o gyfanswm o 298 eiddo yn ardal cod post Talacharn heb fand eang cyflym iawn.

## Cynllunio, Datblygu a'r Amgylchedd


Cyfyngedig yw'r cyfleoedd am ddatblygiad newydd yng nghanol y dref neu'n agos i'r canol oherwydd yr amgylchedd hanesyddol a warchodir ac ardaloedd isel sydd mewn perygl o ddioddef llifogydd. Mae hyn wedi cyfrannu at y galw am drawsnewid adeiladau cyflogaeth a masnachol presennol at ddibenion preswyl a thrwy hynny godi eu gwerth.

Un adeilad yng nghanol y dref sydd wedi bod yn wag ers amser hir ac sy'n lled ddadfeilio yw Island House, eiddo preswyl gradd II*. Mae'r adeilad mewn cyflwr gwael ac mae ymgyrch leol ers amser maith i ganfod diben hyfyw iddo yn y dyfodol a'i adfer a'i ailfeddiannu.

Mae datblygiadau newydd wedi eu cyfyngu i ardaloedd uwch sydd wedi eu lleoli uwchben y dref. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig yn ystyried Talacharn fell le addas ar gyfer ychydig o dwf preswyl gan gynnwys 3 safle gyda photensial am 72 o unedau (gyda 15 o'r rhain yn rhai fforddiadwy), er na chynllunir unrhyw safleoedd cyflogaeth newydd.

Yn ogystal â'r angen am fwy o gartrefi, yn gyffredinol, mae'r angen am dai llai, llai drud, i fynd i'r afael â'r anghydbwysedd rhwng prisiau tai uwch a chyflenwad cyfyngedig o gartrefi addas mewn ardaloedd gwledig, yn enwedig i un person a chyplau.

**Ffigur 6 Cynllun Datblygu Lleol**



# 4 Ystyriaethau a Chyfleoedd Allweddol

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
|  |  |  |  |  | airbnb |
| Mynd i'r afael â'r problemau allweddol gyda pharcio yng nghanol y dref (ceir a bysiau) trwy amrywiaeth o fesurau rheoli a lleoedd parcio newydd | Angen arwyddion strategol, cydgysylltiedig ac effeithiol ar gyfer ymwelwyr ar yr A40 er mwyn rheoli dwysedd traffig i Dalacharn a ffordd arall i Bentywyn o Red Roses (B4314). | Buddsoddi mewn cymysgedd o safleoedd gweithdai masnachol/gwneuthurwyr i annnog twf busnesau ac arallgyfeirio economi'r dref. | Mynd i'r afael â chyflwr adfeiledig Island House a chefnogi buddsoddiad ynddo | Marchnata Talacharn a Pentywyn fel un gyrchfan | Twf mewn llety gwyliau yn effeithio'n negyddol ar y cartrefi fforddiadwy sydd ar gael |
|  |  |  |  |  |  |
| Cryfhau'r nifer o fusnesau ac atyniadau o amgylch y dref er mwyn cynyddu'r amser a dreulir a'r prysurdeb o amgylch Talacharn | Mynd i'r afael ag ansawdd waelach band eang mewn ardaloedd gwledig. | Cyllid ac adnoddau i gefnogi busnesau | Trefn gynllunio fwy ymatebol a chefnogol er mwyn annog buddsoddi ac adfywio | Mae'r prif faterion yn gofyn am gamau gweithredu cyflym er mwyn helpu adfer a thwf | Nifer cyfyngedig o dai yn cael eu codi, sy'n effeithio ar y cyflenwad o dai fforddiadwy a thwf cyflogaeth y dref. |

# 5 Camau â blaenoriaeth

Y brif her i Talacharn yw sut i reoli twf y dref fel lle cynaliadwy i fyw, gweithio ac ymweld â hi heb niweidio'r nodweddion arbennig sy'n ei gwneud yn un o brif atyniadau twristiaeth Sir Gaerfyrddin ac iddi'r gallu i ddenu ymwelwyr rhyngwladol.

Mae'r dystiolaeth yn dangos fod y boblogaeth wedi bod yn lleihau yn ogystal â mynd yn hŷn, ac mae'r nifer o bobl mewn oedran gwaith wedi bod yn gostwng. Mae prisiau tai yn uwch na'r cyfartaledd, ac mae fforddiadwyedd yn broblem i bobl ifanc ac i'r rheini sy'n gweithio yn y dref. Mae'r nifer o fusnesau gweithgynhyrchu traddodiadol a diwydiannol ysgaf wedi gostwng yn raddol gyda nifer mawr o adeiladau busnes wedi eu trosi'n rhai preswyl.

Er hynny, mae cyfleoedd am gyflogaeth dymhorol mewn lletygarwch yn dda iawn, ac mae'r ardal yn elwa ar hygyrchedd da ar gyfer cyfleoedd cyflogaeth yn Sanclêr, Pentywyn a Chaerfyrddin.

## Blaenoriaethau Strategol

- Tai fforddiadwy i gynnal y boblogaeth leol a chynnal cyflogeaeth leol
- Datrys problemau parcio ar adegau brig y flwyddyn er mwyn osgoi niweidio apêl y dref ac annog twf yn y nifer o ymwelwyr a busnesau Newydd
- Datrys problemau parcio ar adegau brig y flwyddyn er mwyn osgoi niweidio apêl y dref ac annog twf yn y nifer o ymwelwyr a busnesau newydd
- Datrys problemau parcio ar adegau brig y flwyddyn er mwyn osgoi niweidio apêl y dref ac annog twf yn y nifer o ymwelwyr a busnesau Newydd
- Tref SMART gyda chysylltedd dibynadwy a strategaethau twf, marchnata ac ymwelwyr sy'n seiliedig ar ddata
- Datrys problemau parcio ar adegau brig y flwyddyn er mwyn osgoi niweidio apêl y dref ac annog twf yn y nifer o ymwelwyr a busnesau newydd

## 1 – Adferiad COVID-19

Y pandemig Covid-19 yw'r argyfwng iechyd cyhoeddus ac economaidd mwyaf ers cenedlaethau. Mae wedi cael effaith dramatig ar gymunedau, yr economi a sut rydym yn byw a gweithio. Mae wedi'n hatgoffa ni y gall y lleoedd rydym yn byw a gweithio ynddynt fod yn fregus ar adegau.

Roedd ansawdd a hygyrchedd y dref a'r cefn gwlad yn hynod bwysig i iechyd a lles pobl yn ystod y cyfnodau clo. Mae gwerthfawrogiad torfol wedi bod o werth llecynnau gwyrdd, llwybrau cerdded a beicio a'r siopau a'r amwynderau lleol.

Ymysg y llawer o heriau pwysig yn y cyfnod adfer mae'r camau brys i ddiogelu busnesau a chyflogwyr lleol a phenderfynu pa newidiadau mewn ymddygiad yn sgil y pandemig sy'n dechrau ymddangos fel nodweddion parhaol o fywyd a gwaith. Mae gan y rhain oblygiadau i'r dref, oherwydd mae pobl yn defnyddio lleoedd yn wahanol, yn teithio llai ac yn treulio mwy o amser yn lleol ac yn gweithio o gartref. Rhaid i'r cynllun adfer a thwf ymateb i'r newidiadau hyn a chyfrannu at adferiad mwy cynaliadwy, gan lunio dyfodol y dref o amgylch gweledigaeth am le mwy gwydn yn economaidd.

Bydd effaith y pandemig yn dal i gael ei deimlo am beth amser a gellir cymryd y camau canlynol i gefnogi busnesau a'r dref:

Nodwyd angen i ddiogelu a chreu swyddi, yn enwedig yn rhai o'r sectorau a gafodd eu taro galetaf, gan gynnwys siopau, hamdden a lletygarwch, a chefnogi busnesau sy'n profi heriau o ran sgiliau yn sgil y pandemig ee gyda sgiliau digidol a TG, marchnata ac arallgyfeirio gan gynnwys datblygu marchnadoedd newydd, tendro lle bo'n addas (yn gysylltiedig â chyfleoedd caffael lleol), mesurau effeithlonrwydd etc.

## 2 – Cartrefi Fforddiadwy

Mae tai fforddiadwy sy'n galluogi pobl leol ac yn enwedig pobl ifanc i ddal i fyw a gweithio yn Nhalacharn wedi bod yn flaenoriaeth allweddol a godwyd gan randdeiliaid wrth baratoi'r cynllun. Mae ar drefi gwledig ffyniannus, gwydn a chynaliadwy angen cymysgedd o dai newydd yn ogystal â chyfleoedd cyflogaeth os ydynt am lwyddo i gadw a denu poblogaeth o oedran gwaith. Mae deinameg y farchnad dai leol yn cynnwys sawl ffactor, nid prisiau tai yn unig, ond materion eraill fel fforddiadwyedd cymharol, mewnfudo, patrymau teithio i'r gwaith, rhagamcanion poblogaeth a chyfraddau cwblhau anheddau newydd etc. Yn gyffredinol, mae'r angen am gartrefi llai a llai drud ar gyfer teuluoedd iau ac aelwydydd sy'n ffurfio o'r newydd – boed am bris y farchnad, ar drefniant canolraddol neu rent fforddiadwy.

Mae Talacharn wedi profi lefelau cymharol isel o ddatblygu new-ydd dros y blynyddoedd diwethaf, ac ar yr un pryd mae'r tai sydd yma eisoes wedi cael eu prynu am brisiau uwch fel ail gar-trefi yn aml. Er bod cartrefi newydd wedi cael eu hadeiladu'n ddiweddar yn Pludds Meadow a safle newydd wedi ei ddyrannu yn Wooford, mae prisiau'n dal i fod yn uwch na'r cyfartaledd ac mae pwysau ar y stoc bresennol. Yn ogystal ag adeiladu cartrefi mwy hyfyw a fforddiadwy, mae angen adnabod dulliau o reoli'r golled o'r tai presennol i'r farchnad ail gartrefi.

Trwy gyfres o gamau gweithredu, mae'r cyfle yma i'r sector cyhoeddus, tirfeddianwyr, Corfforaeth Talacharn a datblygwyr lleol llai i weithio gyda'i gilydd i symud ymlaen gyda'r twf newydd a gynllunir yn unol â'r Cynllun Datblygu Lleol ac adeiladu economi gynaliadwy.

- Dad-risgio'r broses ddatblygu – symud oddi wrth y 'ffenest siop' draddodiadol o ddim ond dyrannu tir ar gyfer tai, a rhoi tystiolaeth o angen am dai, galw'r farchnad a dealltwriaeth o'r gost a'r gofynion eraill sydd eu hangen i gael caniatâd cynllunio
- Cysylltu datblygwyr bach lleol â thirfeddianwyr safleoedd datblygu
- Trwy gefnogi'r datblygwyr lleol mae buddion i'r gadwyn gyflenwi leol gan gynnwys ffynonellau lleol ar gyfer pren, deunyddiau adeiladu eraill, defnydd o grefftau medrus lleol, hyfforddiant a chyflogaeth leol

## 3 – Parcio, Cerdded a Rheoli Traffig

### A) Cynyddu cyfleoedd parcio yng nghanol y dref

Mae'r prinder lleoedd parcio sydd ar gael a'r oruchwyliaeth o barcio yn bryder sylweddol i ddyfodol twf a deniadrwydd Talacharn. Mae amryw o astudiaethau wedi archwilio'r achosion a'r cyfleoedd i fynd i'r afael â hwy. Mae'r problemau'n dymhorol ac yn ddibynnol ar y tywydd, fodd bynnag, bydd angen ateb strategol a hirdymor wedi ei gydgysylltu rhwng Cyngor Sir Gâr a'r Cyngor Tref os am wireddu'r uchelgais i gynyddu'r nifer o ymwelwyr ac annog pobl i aros yn Nhalacharn am gyfnodau hirach. Mae'r risgiau os bydd yr anawsterau presennol yn parhau yn cynnwys colli masnach, diffyg cymhelliad i fuddsoddi, niweidio enw da ac ymwelwyr yn oedi cyn dod yn ôl.

Mae problemau parcio'n gysylltiedig hefyd â'r swm o draffig drwodd, gan gynnwys ymwelwyr sy'n anelu tuag at Pentywyn.

Mae amryw o ddewisiadau posibl – yn rhai i'w gweithredu ar unwaith a rhai mwy hirdymor:

- **Rhoi llinellau gwyn ar leoedd parcio presennol** - cyfle am ateb cyflym ac isel o ran cost i wella'r defnydd effeithlon o leoedd parcio ar-stryd a dynodedig presennol trwy gilfachau parcio 'llinellau gwyn'. Mae i hwn y potensial o gynyddu'r niferoedd o leoedd sydd ar gael a helpu lleihau parcio anystyriol. Mae'r lleoliadau allweddol yn cynnwys Stryd Clifton; Stryd y Brenin; y Grist; Maes Parcio'r Strand/Blaendraeth. Mae dibyniaeth ar barcio ar y stryd yn gofyn hefyd am fesurau gorfodi rheolaidd.
- **Clifton Street** – mae'r lleoliad yn ddelfrydol i annog ymwelwyr ar arosiadau hir a gweithwyr ei ddefnyddio fel lle parcio, heb yr angen i yrru trwy ganol y dref neu feddiannu lleoedd parcio canolog sy'n addas ar gyfer ymweliadau byrrach. Mae'r lleoliad yn berffaith ar gyfer denu ymwelwyr i fedd Dylan Thomas a Thaith Gerdded Dreftadaeth Talacharn. Mae'r pellter cerdded i'r canol yn llai na chilomedr a gellid creu cyfle i gyfeirio cerddwyr ar hyd King Street i gefnogi'r busnesau presennol yn ogystal â rhai newydd. Mae dau ddewis parcio ar gael, ac, yn y ddau achos, bydd angen arwyddion ffyrdd manwl ac effeithiol i dynnu sylw ymwelwyr cyn iddynt gyrraedd cwr y dref.

- Mae maes parcio'r eglwys yn defnyddio trefniant taliadau blwch gonestrwydd, ond nid yw'r lle ar gael yn gyson oherwydd gwasanaethau'r eglwys, angladdau, priodasau.
- Mae tir gyferbyn â'r eglwys wedi cael ei gynnig yn rhad ac am ddim trwy drefniant gyda'r perchnogion preifat i'r Cyngor greu maes parcio ffurfiol wedi'i reoli a lle nifer bach o fysiau. Bydd ar y safle angen caniatâd cynllunio ac wyneb Newydd

- **Tir Gailsford House ac Old Pottery, Kings Street** – rhoddwyd caniatâd yn 2015 ar gyfer adeiladu 14 o unedau preswyl a 50 o fannau parcio cyhoeddus. Mae hwn yn safle mwy canolog er bod y datblygiad preswyl diweddar ar y tir yn golygu bod y cyfle am y cynllun parcio newydd yn dal yn ansicr.
- Strategaeth Parcio Talacharn - gwnaed argymhellion ar gyfer strategaeth ehangach i reoli a chodi tâl am barcio yn 2016 ac maent yn cynnwys cyflwyno taliadau am barcio a lleoedd parcio â thrwyddedau preswyl. Mae'n debygol y bydd rhai o'r mesurau hyn yn angenrheidiol i reoli traffig a pharcio yn effeithiol yn y dyfodol.

**Ffigur 7 Dewisiadau parcio Clifton Street**




**Ffigur 8 Opsiwn safle Gailsford House**



### B) Traffig ymwelwyr ac arwyddion cyrchfan

Mae ansawdd arwyddion a gwybodaeth i draffig ymwelwyr o'r A40 yn dameidiog ac anghyson. Mae strategaeth arwyddion gydgysylltiedig ar gyfer Talacharn a thraffig trwodd Pentwyn yn angenrheidiol er mwyn rheoli llifau traffig yn effeithiol. Dylid parh-au i ymchwilio dewisiadau ar gyfer arallgyfeirio traffig sy'n anelu am Pentwyn trwy ffyrdd eraill a mwy uniongyrchol (ee Red Roses) er mwyn rheoli'r cynnydd tymhorol a ddisgwylir mewn traffig trwy'r dref.

## 3 – Cefnogi twf busnesau

Lle bo diffyg seilwaith cyflogaeth i gynnal anghenion y presennol na'r dyfodol, gall gwydnwch a chynaliadwyedd ardal gael eu tanseilio, gan gyfrannu o bosibl at ddirywiad. Mae diffyg cyfleoedd am waith yn rheswm allweddol hefyd y tu ôl i ddiboblogi gwledig, yn enwedig yn y gweithlu iau. Trwy gefnogi ac annog twf cwmnïau sydd wedi sefydlu'n lleol, yn enwedig mewn diwydiannau mwy arbenigol, bydd hyn yn helpu creu cyflogaeth hirdymor â thâl uwch, cadw gweithwyr, ehangu'r sail sgiliau a helpu cynnal cymunedau lleol.

Yr economi sylfaenol yw asgwrn cefn yr economi wledig ac mae'n cynrychioli'r rhannau hynny o'r economi sy'n cynnal ein hanghenion bob dydd (gofal cymdeithasol, siopau, twristiaeth, bwyd, diod, adeiladu, ynni etc). Yn yr un modd, mae prosesu bwydydd a diodydd lleol o gynhyrchion amaethyddol a garddwriaethol yn ddiwydiant sy'n tyfu. Mae ar yr holl fathau hyn o fusnesau angen cymorth busnes a seilwaith cyflogaeth tebyg megis lleoedd gweithio fforddiadwy o ansawdd da gyda'r cysylltedd digidol gorau bosibl.

### A) Buddsoddi mewn safleoedd busnes i gefnogi busnesau sy'n cychwyn o'r newydd, a thyfu ac ehangu busnesau

Ychydig diffyg lleoedd gweithio addas sydd ar gael i gefnogi twf busnesau micro a bach yn Nhalacharn. Fodd bynnag, dylid archwilio cyfleoedd i greu lleoedd newydd i fusnesau naill ai trwy safleoedd datblygu newydd, defnyddio adeiladau cyhoeddus sydd dros ben, cael gafael ar adeiladau gwag, neu sefydlu lleoedd gwaith newydd i'w rhannu.

Mewn ardaloedd gwledig lle nad oes fawr o ddiddordeb gan ddatblygwyr ar raddfa fawr, mae gan y sector cyhoeddus hefyd rôl bwysig i'w chwarae wrth weithio gydag amrywiaeth o ddatblygwyr a thirfeddianwyr lleol llai i fynd i'r afael â'r rhwystrau i ddatblygu. Mae'r rhain yn cynnwys mynd i'r afael â'r bwlch hyfywedd rhwng cost adeiladu a moderneiddio lleoedd cyflogaeth newydd a'r incwm rhenti, a rôl ddatblygu economaidd bwysig wrth arwain datblygwyr bach trwy'r broses gynllunio.

### B) Canolfannau gweithio a lleoedd gweithio i'w rhannu

Gall newidiadau i arferion gweithio, a'r diddordeb a'r gallu cynyddol i weithio'n agosach at gartref ac ymhell o brif swyddfeydd, arwain at fwy o alw i fyw mewn ardaloedd gwledig a gwella cyfleoedd i helpu cynnal y boblogaeth sydd mewn oedran gwaith. Mae cyfleoedd sy'n helpu

darparu lleoedd gweithio hyblyg yn agosach at y cartref yn cynnwys:

- **Astudiaeth ddichonoldeb** – astudiaeth leol i ymchwilio graddau penodol y galw a gofynion lleoedd gwaith gan y dref leol a'r boblogaeth wledig.
- Ymchwilio i'r potensial am greu canolbwynt gwaith newydd i'r sector cyhoeddus mewn trefi gwledig i gynnal gweithio hyblyg ledled y sir.

## C) Ailddefnyddio adeiladau gwag a rhai a dan-ddefnyddir

Mae'r rhain yn cynnig cyfleoedd am amrywiaeth o gyfleoedd mentro ac adfywio ffisegol.Mae eiddo yng nghanol y dref yn cynnig cyfleoedd am safleoedd dros dro i arbrofi gyda syniadau busnes newydd, yn enwedig i bobl ifanc ddod i chwarae rhan weithgar yn y gymuned a datblygu sgiliau mentro.

- Safleoedd busnes newydd – naill ai ailddefnyddio adeiladau sector cyhoeddus sydd dros ben neu fynd ati'n ddethol i gaffael adeiladau allweddol gwag sydd wedi gwneud cyfraniad ehangach i adfywiad ffisegol ac economaidd y dref.

Mae nifer o enghreifftiau o adeiladau gwag addas wedi eu lleoli yn nhref Talacharn, er eu bod yn aml â chaniatâd ar gyfer def-nydd preswyl. Mae cynyddu'r cyfanswm o leoedd masnachol sydd ar gael (siopau, swyddfeydd, gwasanaethau) o bwysig-rwydd allweddol i dwf hirdymor economi canol y dref.

## D) Cefnogi twf busnes o fewn cwmnïau sefydledig

Mae'r twf yn yr economi leol yn gysylltiedig â llwyddiant cyflogwyr mwy y dref, ac yn enwedig, cwmnïau sefydledig lleol sydd â'u penderfyniadau wedi eu gwreiddio'n gadarn yn y gymuned. Mae pwyslais cryf ar gynyddu'r nifer o gwmnïau sefydledig, yn ogystal â sefydlu sail gadarnach o fusnesau canolig eu maint (c.50 o weithwyr) sy'n gallu gwerthu'r tu allan i Gymru.

- Busnesau Canolig eu Maint - Mae'r sector lletygarwch a lletyn yn cynnal nifer o gwmnïau sefydledig a chanolig eu maint yn Nhalacharn. Mae'r mesurau i gefnogi eu twf yn cynnwys:
    - Cyd-drafod â chyflogwyr blaenllaw i adnabod cyfleoedd buddsoddi yn y dyfodol a meysydd o gymorth yn y dyfodol
    - Help i gefnogi uwchsgilio'r gweithlu presennol a hyfforddi ac ailsgilio gweithwyr y dyfodol
    - Ymchwilio cyfleoedd i'r economi leol o fewn eu cadwyni cyflenwi presennol
- Micro-fusnesau - Neilltuo a thargedu cymorth ar gyfer y cam nesaf o dwf ymysg micro-fentrau bach, sy'n aml yn gwmnïau a berchnogir gan deuluoedd a phobl hunan-gyflogedig o fewn y gymuned.

### E) Hyrwyddo’r defnydd o Gymraeg yn fusnes

Annog pobl i ddysgu a siarad Cymraeg mewn amgylchedd busnes, i helpu i'w cysylltu ag ystod ehangach o bobl a chyfleoedd yn ogystal â diwylliant a threftadaeth Cymraeg. Mae cefnogaeth ar gael trwy Helo Blod, sy'n cynnwys swyddog sy'n gwasanaethu Gorllewin Sir Gaerfyrddin, yn gweithio gyda Menter Iaith i alluogi busnesau a sefydliadau i gyflwyno bach o Gymraeg i'w busnes trwy'r gwasanaeth cyfieithu a gwirio testun.

### F) Amaethyddiaeth a chynhyrchu bwyd

Mae hefyd yn gefnogol i fusnesau seiliedig ar fwyd bach a chanolig eu maint a sefydlu unedau cynhyrchu i gefnogi cynhyrchion bwyd o werth ychwanegol, a allai gynnwys cawsiau arbenigol, hufen ia a chynhyrchion llaeth eraill sy’n gallu denu premiwm ar sail tarddiad lleol.

Y nod yw cefnogi mentrau sy’n creu busnesau o werth uwch a mwy cynhyrchiol trwy gynyddu cynhyrchiant, amrywiaeth ac effeithlonrwydd ffermio. Mae’r cynigion yn y cynllun am leoedd gweithio modern, seilwaith digidol a marchnata a hyrwyddo yn ceisio cefnogi’r nod hwn a chyfrannu tuag ato.

## 5 – Hyrwyddo Talacharn

Wrth i’r economi adfer o’r pandemig a newid cadarnhaol ddigwydd, bydd angen i Dalacharn gyfleu delwedd gadarnhaol o’r dref a’r busnesau i’r gymuned leol ac i ymwelwyr. O ystyried ei bod yn gyrchfan mor adnabyddus, mae’n syndod nad oes gan Dalacharn ei phresenoldeb ar-lein ei hun fel cyrchfan i ymwelwyr a’i bod yn dibynnu ar ddull tameidiog gydaf amryw o wefannau (Discover Carmarthenshire, Darganfod Sir Gâr, BBC, Laugharne Weekend, Croeso Cymru, CADW) â’u dulliau eu hunain.

Mae’r cyfleoedd i weithredu yn cynnwys:

- Menter farchnata cyrchfan i nodi’r negeseuon craidd a’r themâu, straeon a rhesymau allweddol dros ymweld, gan gynnwys cysylltiadau hanesyddol y dref, busnesau arbenigol, cynhyrchwyr a gweithgareddau lleol. Mae cyfle hefyd i weithio gyda busnesau Pentywyn i greu cyrchfan arfordirol ar y cyd sy’n cynyddu amserau a dreulir yno ac ymestyn ymweliadau diwrnod a thros nos. Byddai angen i'r fenter marchnata i gydnabod bod gan y ddau gyrchfan eu marchnadoedd ymwelwyr diwrnod ac wythnos unigryw.
- Yn ogystal ag ymgyrch fawr sy’n gweiddi’n uchel o un ffynhonnell ganolog am y dref a’r ardal o’i chwmpas, cynigir hefyd gyrraedd cwsmeriaid ac ymwelwyr y dref trwy’r busnesau lleol eu hunain. Gellid cyflawni hyn trwy fanteisio ar rym cyfathrebu torfol y busnesau unigol a’u perthynas uniongyrchol â’u cynulleidfaoedd a chwsmeriaid presennol wrth ddefnyddio negeseuon craidd ar lefel tref a sgiliau cyfryngau cymdeithasol a chyfathrebu y dylid eu datblygu i rymuso pob busnes. Byddai angen i ddull deinamig o farchnata fanteisio’n llawn ar y dechnoleg tref glyfar – SMART – a fyddai ar gael.

## 6 – Tref a chefn gwlad digidol-glyfar

Mae technoleg ddigidol wedi chwarae rhan bwysig wrth alluogi busnesau a chymunedau i addasu yn ytod y pandemig COVID 19. Mae Cyngor Sir Gaerfyrddin yn gweithio ar hyn o bryd gyda llywodraethau Cymru a'r Deyrnas Unedig i gefnogi busnesau, gweithwyr cyflogedig a chymunedau i fanteisio ar yr holl fuddion sy'n cysylltiedig â chysylltiadau rhyngrwyd cyflymach a mwy dibynadwy a datblygu rhaglenni digidol wi-fi i hyrwyddo trefi marchnad ee negeseuon hysbysu i aelodau o'r cyhoedd sy'n ymweld â threfi. Mae'r cyfleoedd yn cynnwys:

Mae'r cyfleoedd i weithredu yn cynnwys:

- Sicrhau bod cysylltedd gigabit-alluog ar gael i'r holl gymuned a sicrhau bod yr holl drigolion gwledig a a phob busnes bach gyda llai na 100mb yr eiliad yn gallu elwa o fentrau'r llywodraeth i uwchraddio band eang, ee Cronfa Uwchraddio Band Eang. Mae hyn yn golygu cronni'r galw a defnyddio gwybodaeth am anghenion lleol i fargeinio am welliannau gyda darparwyr telecom.
- Mae'r dref SMART yn cyfuno'r defnydd o ateb Wi-Fi i'r dref gyda dadansoddiad rheolaidd o'r data a gesglir fel y caiff ei rannu gyda busnesau i'w galluogi i ennill dealltwriaeth o gwsmeriaid wrth farchnata. Mae dadansoddeg o'r fath yn cynnwys tueddiadau ymwelwyr fel: cyfraddau troedio; amser a dreulir; dyddiau prysuraf yr wythnos etc; mesur llwyddiant digwyddiad i gyfiawnhau buddsoddiad yn y dyfodol; gellir ei ddefnyddio i ddenu busnes newydd.
- Mae'r Rhyngrwyd Pethau a thechnoleg LoRaWAN yn rhwydwaith arloesi newydd sy'n cefnogi arloesedd busnesau a chymunedau. Mae'r dechnoleg yn newydd ac yn ffurfio rhan o ddatblygu'r cyfuniad iawn o seilwaith cysylltedd, ymwybyddiaeth, sgiliau a chymorth i alluogi busnesau a thrigolion i ffynnu a manteisio'n llawn ar y chwyldro digidol.
- Hyfforddiant digidol – nid yw technoleg ddigidol ond cystal â'r sgiliau a'r hyder sydd yno i'w defnyddio. Bydd hyfforddiant lleol yn hanfodol er mwyn uwchsgilio, rhannu gwybodaeth ac annog y defnydd o dechnoleg ar draws y dref farchnad.

## 7 – Safleoedd Allweddol a Thir y Cyhoedd

### A) Island House

Cafodd Island House ei brynu gan Island House Restoration Ltd ym mis Mawrth 2020 yn dilyn cyfnod o 16 o ymddadfeilio. Mae'r tŷ rhestredig Gradd II* o'r 16eg ganrif wedi chwarae rhan yn rhai o benodau pwysicaf gorffennol Talacharn a chaiff ei drysori gan y gymuned leol sydd wedi ymgyrchu dros iddo gael ei achub.

Y cynllun yw i'r adeilad hynod amlwg, sydd wedi'i leoli gerllaw y castell ac yng nghanol y dref, gael ei adfer i'w gyflwr gwreiddiol a'i drawsnewid yn westy, bar a thŷ bwyta. Mae Cyngor Sir Gaerfyrddin a Cadw (y gwasanaeth amgylchedd hanesyddol) wedi ymwneud â sawl cam o'r cynllun.

Mae adfer ac ailddefnyddio Island House o bwysigrwydd cenedlaethol ac mae gan hyn y potensial o ychwanegu

atyniad masnachol a threftadaeth newydd i ganol y dref. Mae graddau'r buddsoddiad sydd ei angen i adfer yr adeilad yn llawn yn gofyn am ddibenion masnachol hirdymor hyfyw iddo.


Mae camau gweithredu a fyddai'n annog adfer Island House, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn cynnwys mynd i'r afael â phrinder lleoedd i barcio a gwelliannau i dir y cyhoedd a fyddai'n ymdrin â symudiad cerddwyr a cherbydau yn yr ardal. Byddai hyn yn helpu gwella lleoliad Island House yn ogystal â chalon fasnachol y dref.

### B) Tir Cyhoeddus Canol y Dref

Mae'r stryd a'r palmentydd cul mewn rhannau o ganol y dref wedi creu anawsterau gyda cherdded yn ddiogel a hamddenol ynddynt. Mae hyn yn broblem benodol ar adegau brig y flwyddyn gydag ymwelwyr yn aml yn cerdded yn y ffordd yr un pryd â thraffig sy'n symud. Mae'r sefyllfa COVID-19 wedi ychwanegu at yr her o gynnal amgylchedd o bellter cymdeithasol diogel i bobl sy'n cerdded y strydoedd yn ogystal â chiwio'r tu allan.

Gellir defnyddio amrywiol fesurau dylunio amgylcheddol a threfol i wella tir y cyhoedd er mwyn creu gwell cydbwysedd rhwng lleoedd i gerddwyr a symudiad traffig trwy'r canol. Mae'r nodau'n cynnwys mynd ati'n sensitif i ailddylunio lleoedd parcio cyhoeddus ar-stryd a datrys achos tagfeydd allweddol yn yr ardal o gwmpas Stryd Wogan a'r Grist. Byddai gwelliannau i'r tirwedd yn gwella'r lleoliad cyffredinol i fusnesau ac ymwelwyr a chynnwys seilwaith newydd e.e. parcio ar gyfer beiciau a phwyntiau gwefru trydan, ym mhrif ardal fasnachol y Grist.

**Figure 9 Cynlluniau ar gyfer canol y dref**




## 8 – Caffael nwyddau, gweithiau a gwasanaethau y sector cyhoeddus

Dylid cefnogi ffurfiau cynaliadwy o dwristiaeth gan gynnwys Mae'r sector cyhoeddus yn Sir Gaerfyrddin yn gwario cannoedd o filiynau yn flynyddol ar nwyddau, gweithiau a gwasanaethau, gan roi amrywiaeth o gyfleoedd masnachol i fusnesau o bob sector a maint. Mae'r Cyngor Sir a'r sector cyhoeddus ehangach yn cydnabod pwysigrwydd eu grym

gwario ac yn edrych ar ffyrdd o brynu cymaint o hyn ag sy'n bosibl o fewn y Sir. Gellir gwneud mwy i gefnogi caffael lleol gyda chyfleoedd i gyflawni'r canlynol:

- annog busnesau lleol i geisio cyngor a chanllawiau ar gyfleoedd caffael lleol.
- hyrwyddo cyfleoedd, yn enwedig i fusnesau bach a newydd, am gontractau sector cyhoeddus is o ran gwerth na fyddai efallai wedi bod yn ddeniadol yn draddodiadol i gyflenwyr llai.

## 9 – Cynlluniau ynni cymunedol

Mae gwydnwch lleol yn un o nodau allweddol menter y Deg Tref ac felly un o'r elfennau craidd yw cefnogi datblygiad cynlluniau ynni cymunedol i'r trefi unigol, a fydd yn y pen draw yn cynnig ffynhonnell o ynni i gymunedau lleol a busnesau lleol yn ogystal â helpu mynd i'r afael â thlodi tanwydd mewn ardaloedd gwledig. Mae'r Cynllun hwn yn amlinellu'r potensial i gofleidio'r cyfleoedd cysylltiedig ag ynni adnewyddadwy sydd wedi hen sefydlu ei hun yn y Sir, yn enwedig o safbwynt ei fuddion uniongyrchol i gymunedau lleol a chefnogi mwy o wydnwch amgylcheddol.

Er mwyn helpu cyflawni hyn, bydd Ynni Sir Gâr yn helpu cymunedau i adnabod a chwmpasu safleoedd posibl ar gyfer cynhyrchu ynni cymunedol. Byddy safleoedd hyn yn elwa o leihad yn eu bil ynni, gan y bydd trydan a ddefnyddir tra bydd y paneli'n cynhyrchu ar gael ar gost is.

## 10 – Economi cylchol

Economi gylchol yw lle caiff gwastraff ei osgoi a lle caiff y pethau a ddefnyddiwn eu cadw mewn defnydd gyhyd â phosibl. A bydd cefnogi buddsoddi lleol mewn busnesau a mentrau cylchol, sef busnesau sy'n cadw pethau mewn defnydd yn hirach, trwy ailddefnyddio, atgyweirio, ailgynhyrchu ac adnewyddu yn helpu adfywio'r economi trwy ychwangu swyddi a datblygu swyddi'n lleol. Trwy wneud hyn yn lleol, y nod hanfodol, yn ogystal â chadw arian mewn cylchrediad o fewn y sir, yw lleihau'r effaith a gaiff y gymuned ar yr amgylchedd.

Y nod yw cefnogi perchnogion busnesau, entrepreneuriaid a gwirfoddolwyr gyda syniadau i helpu datblygu'r economi gylchol yn y dref a Sir Gaerfyrddin.

# 6 Cyflawni'r gwaith

Mae'r cynllun cyflawni yn rhoi syniad o raddfeydd amser, awgrymiadau am bartneriaid cyflawni a'r camau nesaf. Ym mhob achos, byddai angen adolygiad manwl o gwmpas y prosiect a gwaith dylunio manylach i roi amcangyfrifon o gostau.

Mae'r cynllun yn cynnwys tri cham, tymor byr, canolig a hir gyda gradd o flaenoriaeth a awgrymir ar sail diddordeb a gweithgarwch rhanddeiliaid a'r angen i gwblhau tasgau penodol fel casglu data i alluogi datblygu prosiectau allweddol.

- Tymor byr – ar unwaith a'r 12 mis nesaf
- Tymor canolig – 2 neu 3 blynedd
- Tymor hir – 5 mlynedd a'r tu hwnt i hynny.

Argymhellir bod cyfres o brosiectau cynnar, 'enillion cyflym' yn cael eu dewis a'u cychwyn er mwyn dangos gweithgarwch ac ennill cefnogaeth ac ymrwymiad busnesau a'r gymuned. Bydd y rhain yn arferol yn brosiectau y gellir eu cyllido o ffrydiau refeniw sy'n bod eisoes neu sy'n golygu buddsoddiad isel o ran cyfalaf. Lle caiff prosiectau mwy cymhleth ond eto â blaenoriaeth uchel eu nodi, dylid blaenoriaethu datblygiad cynnar achos busnes amlinellol a dyluniad.

Mae ffrydiau cyllid ac adnoddau yn aml yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn ac mae'r rheini a oedd ar gael ar adeg paratoi'r cynllun hwn wedi eu nodi yn y tablau canlynol. Yn dilyn ymadawiad y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd, bydd newidiadau sylweddol i'r tirwedd cyllido. Bydd y rhaglenni presennol sy'n cynnal y gweithgarwch presennol, megis Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (LEADER) yn cael ei disodli yn y pen draw ar lefel y Deyrnas Unedig a'u cyfeirio trwy Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol. Nid oes sicrwydd ar hyn o bryd ynghylch sut y bydd hyn yn cael ei wneud. Yng ngoleuni hyn, bydd angen i'r cynllun fod yn ymatebol dros y 12-24 mis nesaf ac yn gydnaws â ffynonellau o gyllid a ddaw i'r amlwg.

**Tabl 1: Cynllun Gweithredu Talacharn**

| CAM GWEITHREDU | AMSERLEN | RHANDDEILIAID / PARTNER GWEITHREDU ALLWEDDOL | CYLLID AC AD-NODDAU POSIBL | Y CAMAU NESAF |
|---|---|---|---|---|
| **1 – ADFERIAD COVID-19** | Tymor Byr | Cyngor Sir Gâr, Busnes Cymru a'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhan-barthol (RLSP) | Cronfa Adferiad a Chym-orth Cyngor Sir Gaer-fyrddin i fusnesau<br><br>Cyllid Cychwynnol LEADER | Bydd Cyngor Sir Gâr yn cydgysylltu cymorth par-tner-asiantaethau i fus-nesau sy'n adfer o effeith-iau'r pandemig. |
| **2 – CARTREFI FFORDDI-ADWY** | Tymor Byr, Canolig a Hir | Cyngor Sir Gâr/datblygwyr | Cyfraniadau datblygwyr a Chyngor Sir Gaerfyrddin a Cartrefi Croeso | Sicrhau cartrefi fforddi-adwy newydd trwy adol-ygu polisi'r Cynllun Dat-blygu Lleol ac yn union-gyrchol trwy ddatblygwyr, Cartrefi Croeso a chym-deithasau tai. Ymchwilio i ddulliau o reoli ail gartrefi. |
| **3 – LLEOEDD PARCIO YNG NGHANOL Y DREF**<br>• **Llinellau gwyn a gor-fodaeth**<br>• **Cyfleoedd ar Clifton Street**<br>• **Tir ger Gailsford House**<br>• **Strategaeth Parcio Tal-acharn**<br>• **Traffig ac arwyddion cyrchfan** | Tymor Byr, Canolig a Hir | Tirfeddiannwr preifat/yr Eglwys, Cyngor Sir Gâr, Cyngor Tref (ar-gymell tasglu i ymdrin â'r cyf-leoedd sydd ar gael a gweithredu cydgysylltiedig i fynd i'r afael â phroblemau parcio) | Pot cyllid cyfalaf Strateg-aeth Parcio, Cronfa Gyf-alaf y Deg Tref | Penderfyniad am gael ei wneud ar ddefnyddio saf-leoedd Clifton Street cyn i'r opsiwn o dir sector preifat ddod i ben.<br>Monitro rheolaeth traffig a mesurau a gytunwyd gyda Phriffyrdd Cyngor Sir Gâr ar y cyd â chwblhau prosiect atyniad twrist-iaeth Pentywyn.<br>Enillion cyflym – llinellau parcio gwyn a gorfodi |
| **4 – CEFNOGI TWF BUS-NESAU** | Tymor Byr a chan-olig | Cyngor Sir Gâr, perchnogion bus-nesau ac eiddo, Busnes Cymru a'r | Cyllid Cychwynnol LEADER | Adnabod tir ac eiddo sydd â photensial ar gyfer |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • **Safleoedd busnes a chanolfannau gweithio / lleoedd gweithio ar y cyd**<br>• **Ailddefnyddio adeiladau a chefnogi twf busnesau**<br>• **Cefnogi busnesau sy'n defnyddio Cymraeg** | | Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol<br><br>Helo Blod | Cronfeydd Grantiau Busnes Cyngor Sir  Gâr a Chronfeydd Datblygu Eiddo Masnachol<br><br>Helo Blod | darparu lleoedd cyflogaeth yn y dyfodol.<br><br>Gweithio gyda chyflogwyr allweddol lleol i adnabod gofynion twf<br><br>Parhau rhaglenni Helo Blod sy'n targedu Talacharn |
| **5 – HYRWYDDO TALACHARN**<br>• **Marchnata'r gyrchfan**<br>• **Marchnata digidol busnesau** | Tymor Byr a Chanolig | Darganfod Sir Gâr / Partneriaeth Rheoli Cyrchfan, Cyngor Tref, sefydliadau busnes a busnesau | Cyllid Cychwynnol LEADER<br><br>Cyllid ac adnoddau Trefi Wi-fi<br>Mentrau brand Darganfod Sir Gâr | Cydgysylltu a'r Bartneriaeth Darganfod Sir Gâr/Rheoli Cyrchfannau.<br>Cysylltu â mentrau trefi SMART a<br>Wi-fi<br>Enillion cyflym – gwefan ar gyfer ymwelwyr â'r dref |
| **6 – TREFI A CHEFN GWLAD DIGIDOL-GLYFAR**<br>• **Uwchraddio band eang**<br>• **Tref Wifi**<br>• **Y Rhyngrwyd Pethau/LoRaWAN**<br>• **Hyfforddiant digidol** | Tymor Byr a Chanolig | Cyngor Sir  Gâr, Cyngor Tref a grwpiau busnes | Cyllid Cychwynnol LEADER<br><br>Cyllid ac adnoddau Trefi Wi-fi<br><br>Gweithredu a hyfforddiant y Rhyngrwyd Pethau /LoRaWAN<br><br>Cyllid Uwchraddio Band Eang | Cronni'r galw am uwchraddio band eang.<br><br>Cymorth a hyfforddiant trefi Wi-fi i'r partner cyflawni lleol<br><br>Adnabod diddordeb busnesau yn y Rhyngrwyd Pethau /LoRaWAN |
| **7 – SAFLEOEDD ALLWEDDOL A THIR Y CYHOEDD** | Tymor Canolig a Hir | Sector preifat (Island House)<br><br>Cyngor Sir Gâr, Cyngor Tref a Grŵp Busnes | Cronfeydd Cymorth Busnes<br><br>Cronfa Gyfalaf y Deg Tref | Island House – sicrhau bod cymorth galluogi a rheoleiddio ar gael gan gyrff |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • **Island House**<br>• **Canol y dref** | | | | statudol a Chyngor Sir Gâr.<br><br>Comisiynu briff dylunio ac astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer gwelliannau i dir y cyhoedd. |
| **8 – CAFFAEL BLAENGAR**<br>• **Contractau Gwerth Isel** | Tymor Byr, Canolig a Hir | Bwrdd Iechyd Hywel Dda<br>Cyngor Sir Gâr | Cronfeydd Grantiau Busnes Cyngor Sir Gâr<br>Mentrau Caffael Blaengar Cyngor Sir Gâr | Camau mewn ymateb i'r argymhellion o ganlyniad i weithredu'r astudiaeth gaffael blaengar |
| **9 – CYNLLUNIAU YNNI CYMUNEDOL** | Tymor Byr | Busnes ac Ynni Sir Gar | LEADER/ Ynni Sir Gâr | Mae gan Ynni Sir Gâr gyllid LEADER hyd at fis Mawrth 2022 ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy cymunedol ac maent yn chwilio am fusnesau a sefydliadau eraill i weithredu hyn gyda hwy |
| **10 – ECONOMI GYLCHOL** | Tymor Byr a Chanolig | Busnesau a Chyngor Sir Gâr | Cyllid Cychwynnol LEADER a'r fenter Economi Gylchol | Argymhellion astudiaethau dichonoldeb Economi Gylchol |

## Tabl 2: Cyllid ac Adnoddau

### CYMORTH SWYDDOGION TREFI MARCHNAD

Mae cyllid wedi cael ei sicrhau trwy raglen Leader RDP i recriwtio 2 X Swyddog Trefi Marchnad a fydd yn gweithio gyda'r 10 Tref i weithredu camau a nodwyd yn y cynlluniau twf economaidd. Y swyddi hyn fydd y cyswllt allweddol rhwng y trefi a'r amrywiol gyfarwyddiaethau ledled yr Awdurdod.

### CYLLID CYCHWYNNOL LEADER

£10k o refeniw i helpu'r trefi i gefnogi a datblygu argymhellion sy'n codi o'r cynllun twf. Enghreifftiau o'r gweithgareddau sy'n gymwys am gymorth (nid yw'n hollgynhwysol) gall cynnwys costau ar gyfer adeiladau busnes, twristiaeth / digwyddiadau, hyfforddi, marchnata, gwasanaethau arbenigol a mesurau adfer COVID-19.

### CYNLLUNIAU YNNI CYMUNEDOL

Gallai datblygu cynlluniau ynni cymunedol i'r trefi fod â'r potensial o gynnig cyfleoedd cynhyrchu ynni i'r trefi hyn. Mae Ynni Sir Gâr Cyf wedi cael eu comisiynu i adnabod a chwmpasu safleoedd posibl o amgylch y Deg Tref gan weithio'n agos gyda Gwasanaethau Ynni Cymru y gellid eu datblygu ymhellach yn brosiectau ynni cymunedol.

### CYLLID CYFALAF

Mae Cyngor Sir Gâr ar hyn o bryd yn ystyried cynigion i neilltuo cyllid cyfalaf i gynorthwyo gyda chyflawni mentrau a cheisiadau am gyllid yn y dyfodol ar gyfer prosiectau a nodir yn y Cynlluniau Twf.

### ADFERIAD A CHYMORTH BUSNES CYNGOR SIR GÂR

Yn amodol ar gymeradwyaeth ffurfiol, rhagwelir y bydd y ffrydiau cyllid adfer busnesau o dan arweiniad y Cyngor Sir ar gael i fusnesau o fis Mawrth 2021.

- Cronfa Adfer i ddiogelu/creu swyddi cynaliadwy mewn sectorau targedu twf
- Cronfa Gymorth refeniw i fuddsoddi mewn swyddi, marchnata ac arallgyfeirio i ddiogelu a thyfu swyddi
- Cronfa menter gwledig Sir Gaerfyrddin – datblygiad o adeiladau busnes newydd a adeiladau busnes sydd yn bodoli eisoes
- Cronfa Datblygu Eiddo Masnachol Trawsnewidiol Sir Gaerfyrddin - cymorth ariannol ar gyfer adeiladu adeiladau am ddefnydd diwydiannol a masnachol.
- Cronfa cychwyn busnes - cefnogaeth gyfalaf ar gyfer creu busnesau newydd lle bydd swyddi newydd yn cael eu creu o ganlyniad i'r cymorth.
- Cronfa tyfu busnes - cymorth ar gyfer prosiectau gwariant cyfalaf a gwariant refeniw arbenigol lle bydd swyddi newydd yn cael eu creu o ganlyniad i'r cymorth.

### MARCHNATA LLEOL/NODWEDDION UNIGRYW

Mae cyllid wedi cael ei sicrhau trwy raglen Leader i hyrwyddo Sir Gâr wledig i dwristiaid posibl. Caiff y prosiect ei arwain gan Dîm Marchnata a Chyfryngau Cyngor Sir Gâr a bydd yn datblygu straeon a rhesymau dros ymweld, rhai sy'n mawrygu'r diwylliant a'r iaith Gymraeg, cynnyrch a gynhyrchir yn lleol etc, a chyflawni cynllun gweithredu marchnata (gan gynnwys deunydd hyrwyddo wedi ei frandio, cynnwys wedi'i baratoi ar gyfer cyfryngau cymdeithasol ee testun, lluniau a fideo, a phecyn i fusnesau.

**SAFLEOEDD GWAG/DIBENION CYFAMSEROL**

Cyllid Llywodraeth Cymru i ddatblygu canllawiau arferion da i'r rhanbarth a fydd yn galluogi cymunedau i ddatblygu safleoedd gwag yn lleoedd 'cyfamserol' neu siopau dros dro, gan roi cyngor ymarferol ar faterion cyfreithiol, trethi busnes etc. Potensial i ddefnyddio'r £10k cyllid Leader i addasu adeiladau gwag i'r diben hwn.

**ECONOMI GYLCHOL – ADFERIAD CYNALIADWY O COVID-19**

Mae'r Cyngor Sir wrthi ar hyn o bryd yn datblygu strategaeth i gefnogi buddsoddi lleol mewn busnesau a mentrau cylchol: sef, mentrau sy'n cadw pethau mewn defnydd yn hirach, trwy ail-ddefnyddio, atgyweirio, ailgynhyrchu ac adnewyddu, ac wrth wneud hynny, helpu adfywio'r gymuned trwy ychwanegu swyddi a datblygu sgiliau'n lleol. Trwy wneud hyn yn lleol, bydd y fenter, yn ogystal â chadw arian mewn cylchrediad o fewn y sir, yn lleihau'r effaith mae Sir Gaerfyrddin yn ei gael ar yr amgylchedd. Anogir prosiectau newydd posibl gyda rhanddeiliaid, perchnogion busnesau, entrepreneuriaid, gwirfoddolwyr lleol etc.

**TREFI DIGIDOL/CLYFAR**

Mae technoleg ddigidol wedi chwarae rhan sylweddol mewn galluogi busnesau a chymunedau i addasu yn ystod y pandemig COVID 19.

- Trefi Wi-fi – Wedi sicrhau cyllid i gyflwyno wi-fi am ddim i bob un o'r Deg Tref am gyfnod o 2 flynedd. Mantais rhwydwaith wi-fi tref yw'r data mae'n ei ddarparu o ran tueddiadau ymwelwyr fel: cyfraddau troedio; amser a dreulir; dyddiau prysuraf yr wythnos etc; mesur llwyddiant digwyddiad i gyfiawnhau buddsoddiad yn y dyfodol; gellir ei ddefnyddio i ddenu busnes newydd. Amser y swyddogion i weithio gyda'r trefi i ddadansoddi'r data a sicrhau bod busnesau lleol yn derbyn yr wybodaeth hon a datblygu cylchlythyr newyddion rheolaidd yn rhoi gwybodaeth ar y trefi; cynigion busnes lleol, digwyddiadau etc
- Y Rhyngrwyd Pethau – Mentrau i archwilio a datblygu'r defnydd o'r Rhyngrwyd Pethau a thechnoleg LoRaWAN fel ffordd o gefnogi'r Deg Tref. Sicrhawyd cyllid I brynu pyrth I'r Rhyngrwyd Pethau. Neilltuwyd cyllid pellach ar gyfer prynu synwyryddion a'u defnyddio unwaith y mae syniadau wedi cael eu nodi.
- Hyfforddiant digidol – Hwyluso cyfres o hyfforddiant rhithiol er mwyn uwchsgilio, rhannu gwybodaeth ac annog y defnydd o dechnoleg ar draws y trefi marchnad.
- Cysylltedd Digidol – Mae'r Awdurdod wrthi ar hyn o bryd yn gweithio gyda Llywodraethau Prydain a Chymru i hyrwyddo'r Gronfa Uwchraddio Band Eang i helpu busnesau, gweithwyr a chymunedau i fanteisio ar yr holl fuddion sy'n gysylltiedig â chysylltiadau rhyngrwyd cyflymach a mwy dibynadwy.